
**ADRAN A** 2007

$\frac{3}{12} = \frac{1}{4}$

1. Mae bag yn cynnwys tri chownter coch, pedwar melyn a phump glas. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y cownter nesaf i'w dynnu o'r bag yn goch?

a) ½   b) ⅓   c) ¼   ch) 3   d) 4


2. Y rhif ym mhob bloc yw cyfanswm y ddau rif oddi tano.




Faint yw'r rhif A?


a) 3   b) 6   c) 10   ch) 11   d) 13

3. Faint yw'r ongl x mewn graddau?




a) 40   b) 100   c) 120   ch) 140   d) 160

4. Wrth deithio mewn trên o Gaeredin i Lundain es heibio i arwydd oedd yn dweud "Llundain 150 milltir". Ar ôl 7 milltir es heibio i arwydd arall oedd yn dweud "Caeredin 250 milltir". Sawl milltir sydd, ar daith trên, o Gaeredin i Lundain?





a) 157   b) 243   c) 257   ch) 393   d) 407

$150 + 250 - 7 = 393$

5. Mae pedwar o'r canlynol yn rhoi'r un ateb. Pa un sy'n wahanol?

a) $2x\sqrt{64}$ $=2\times8$ $=16$    b) 22–2x3 $=22-6$ $=16$    c) $2^4$ $=2\times2\times2\times2$ $=16$    ch) 4+4x2 $=4+8$ $=12$    d) $5^2–3^2$ $=25-9$ $=16$

6. Dyma rwyd ciwboid. Faint yw cyfaint y ciwboid?




$4\times7\times10=280cm^3$

a) $80cm^2$    b) $80cm^3$    c) $276cm^3$    ch) $280cm^2$    d) $280cm^3$

7. Oed cymedrig 4 aelod o grŵp canu yw 19. Faint yw oed cymedrig y grŵp pan mae aelod newydd 24 mlwydd oed yn ymuno â hwy?

$4\times19=76$
$76+24=100$
$100\div5=20$

a) 19    b) 20    c) 21    ch) 22    d) 24

8. Cafodd Sion deledu yn anrheg Nadolig oedd yn costio £200. Ar ôl y Nadolig roedd mam Sion yn siomedig pan welodd fod pris y teledu wedi gostwng 20%. Roedd yn fwy siomedig fyth pan welodd fod y pris wedi gostwng 20% ymhellach yn y Flwyddyn Newydd. Faint yn llai oedd pris y teledu yn y Flwyddyn Newydd nag a dalwyd cyn y Nadolig?

$200-40$ $=160$
$160-32$ $=128$

a) £40    b) £72    c) £80    ch) £120    d) £128


9. Ar ganol ras rydych yn pasio'r person sy'n bumed yn y ras ac yna'n pasio'r person nesaf hefyd. Beth yw eich safle erbyn hyn?

6 5 4 3 2 1

a) 2il    b) 3ydd    c) 4ydd    ch) 5ed    d) 6ed

10. Futoshiki


Mae pob rhes a cholofn yn cynnwys y rhifau unigol 1, 2 a 3. Ystyr yr arwydd ">" yw "yn fwy na", ac mae'n cysylltu'r rhifau mewn dau focs cyfagos.




Faint yw'r rhif A?

a) 0 b) 1 c) 2 ch) 3 d) nid oes modd penderfynu


11. Pa graff sydd yn cynrychioli orau uchder hylif wrth gael ei arllwys ar raddfa gyson i'r cynhwysydd canlynol?:




Gweler y graffiau ar y dudalen ar wahân.

a) b) c) ch) d)


a)





b)





c)




ch)




d)




Taflen ar gyfer Cwestiwn 11

*Ysgol*: ........................................................................ *Dosbarth*: .................................

*Enw*: ........................................................................................................................

**ADRAN B**


1. Mae dau geffyl (A a B) yn gallu cwblhau ras mewn tair ffordd wahanol, sef A yn gyntaf, B yn gyntaf, neu'r ddau yn gyfartal. Gallwn ddefnyddio'r nodiant a ganlyn i gynrychioli'r tair ffordd: AB; BA; [AB]

   Mewn sawl ffordd wahanol gall tri cheffyl gwblhau ras? Ateb 13

   Rhestrwch y posibiliadau isod:


   A B C
   A C B
   B A C
   B C A
   C A B
   C B A
   [AB] C
   [AC] B
   [BC] A
   A [BC]
   B [AC]
   C [AB]
   [ABC]

**2.** Wrth orgyffwrdd dau sgwâr cyfath gallwn lunio siapiau newydd. Er enghraifft yn y darlun hwn mae'r darn gorgyffwrdd yn ffurfio sgwâr arall:



Pa siapiau gorgyffwrdd eraill sy'n bosibl gan ddefnyddio dau sgwâr cyfath? Enwch y siapiau, a dangoswch isod sut y gellir eu ffurfio:

Weler dudalen nesaf


Sgwâr
Petryal
Triongl isosgeles
Triongl anghyfochrog
Heptagon
Pentagon
Hecsagon
Octagon
Barcut
Pedrochr afreolaidd